# Gwaharddiad ar Fêps Untro

## Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mae Llywodraeth Cymru eisiau diogelu'r amgylchedd a dyfodol pawb sy'n tyfu i fyny yng Nghymru.**

Mae Cymru eisoes yn gwneud yn dda — rydym ni'n un o'r gwledydd gorau yn y byd ar gyfer ailgylchu. Ond mae plastigau untro yn dal i fod yn broblem. Maen nhw'n llygru ein strydoedd, ein parciau a'n moroedd.

Mae fêps untro yn rhan o'r broblem honno. Yn 2023—2024, fe wnaethom edrych ar p'un a ddylid eu gwahardd.

**O 1 Mehefin 2025, mae cyfraith newydd yn golygu na fydd siopau yng Nghymru bellach yn cael gwerthu fêps untro.**

Ond cyn unrhyw gyfraith newydd neu benderfyniadau mawr, rydym ni'n gwneud Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA). Mae'n ffordd i feddwl sut y bydd hyn yn effeithio ar blant a phobl ifanc a'u hawliau.

ℹ Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawliau. Maen nhw wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

**Mae hwn yn grynodeb byr o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y gwaharddiad ar fêps untro.**

### Mae fêps untro:

- yn gallu cynnwys plastig
- yn cynnwys batri sy'n cynhesu hylif mae pobl yn anadlu i mewn
- yn dod mewn lliwiau llachar a gwahanol flasau
- yn gallu cynnwys nicotin (mae'r cyfan wedi'u gwahardd p'un a ydynt yn cynnwys nicotin ai peidio)
- **yn ddrwg i'r amgylchedd!**

Maen nhw'n torri i lawr i ficroblastigau.

Maen nhw'n anodd eu hailgylchu felly yn cyrraedd tomenni gwastraff.

Mae batris rhai fêps yn dal tân pan fyddant yn cael eu difrodi neu eu malu.

Mae mwy o bobl ifanc yn defnyddio fêps nawr.

Dydyn ni ddim yn gwybod yr holl ffyrdd y gall fêps niweidio pobl.

Mae'r rhan fwyaf yn cynnwys nicotin sy'n gaethiwus ac yn ddrwg i'ch iechyd.



### O 1 Mehefin 2025:

Ni all siopau werthu fêps untro.

Ni all busnesau a phobl roi fêps untro i ffwrdd.

Os byddant yn gwneud hynny, byddant yn torri'r gyfraith a byddant yn cael dirwy neu garchar.

# Cynnwys pobl

## Yn 2023

Fe wnaethom gymryd rhan mewn ymgynghoriad â Llywodraeth y DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yr enw arno oedd 'Creu cenhedlaeth ddi-fwg'. Roedd yn cynnwys cwestiynau am werthu fêps untro.

Cafwyd **27,921** o ymatebion — roedd **1,018** o'r rhain yn dod o Gymru.

Roedd llawer o bobl o blaid y gwaharddiad oherwydd:

- yr effaith ar yr amgylchedd
- y niwed y gallai ei wneud i iechyd plant a phobl ifanc.

Ond roedden nhw'n pryderu bod plant a phobl ifanc yn cael y gefnogaeth gywir i roi'r gorau i ysmygu.

## Yn 2024

Fe wnaethom ni gynnal arolygon ar-lein — roedd hyn yn cynnwys arolwg ar-lein ar gyfer Ysgolion Eco.

Fe wnaeth Plant yng Nghymru gynnal arolwg ar gyfer pobl ifanc yn ystod eu penwythnos preswyl haf.

Cawsom drafodaethau yn sesiynau Cyfiawnder Cymdeithasol a Newid Hinsawdd Cymru Ifanc.

Cawsom holiadur i blant 14—18 oed yn y digwyddiad 'Ein Daear, Ein Dyfodol'.

**Cafwyd 12 o ymatebion.**

Re wnaeth **80%** gytuno y byddai gwahardd fêps yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.

Roedd **58%** o'r farn na fyddai gwaharddiad ar fêps untro yn arwain at bobl ifanc yn dechrau ysmygu.

## Yn 2025

Defnyddion ni animeiddiad ac infographig gan Youth Friendly i godi ymwybyddiaeth o'r gwaharddiad ar fêps untro a'u heffaith ar yr amgylchedd. Fe wnaethon ni rannu'r rhain gyda grwpiau plant ledled Cymru a gofyn sut y gallai'r gwaharddiad effeithio ar arferion ysmygu a fêpio. **Cafwyd 8 ymateb.**

Un person ifanc oedd o'r farn bod y gwaharddiad yn fwy am ddiogelu'r amgylchedd (a roedden nhw'n ei gefnogi) nag am fynd i'r afael â fêpio ymhlith pobl ifanc.

### Arferion Ysmygu a Fêpio

Dywedodd pedwar na fyddai'r gwaharddiad yn lleihau ysmygu na fêpio — byddai pobl ifanc yn debygol o newid i fêps ailddefnyddiadwy oherwydd eu blasau a'u dyluniad.

### Mynediad at Gymorth

Doedd y rhan fwyaf ddim yn gwybod ble i fynd am gymorth i roi'r gorau i fêpio. Awgrymon nhw fwy o hyrwyddo cymorth trwy gyfryngau cymdeithasol, hysbysebion a phosteri mewn mannau cyhoeddus fel safleoedd bysiau, gorsafoedd, meddygfeydd, fferyllfeydd, ysgolion a cholegau.



# Hawliau plant

**Mae'r gwaharddiad hwn yn cael effaith gadarnhaol ar yr hawliau hyn.**

- **Erthygl 3:** Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn.
- **Erthygl 6:** Yr hawl i fywyd, goroesiad a datblygiad.
- **Erthygl 17:** Yr hawl i gael gafael ar wybodaeth o'r cyfryngau.
- **Erthygl 24:** Yr hawl i iechyd a gwasanaethau iechyd.
- **Erthygl 29:** Yr hawl i addysg.
- **Erthygl 31:** Yr hawl i hamdden, chwarae a diwylliant.
- **Erthygl 33:** Yr hawl i amddiffyn rhag cyffuriau anghyfreithlon.
- **Erthygl 36:** Yr hawl i amddiffyn rhag camfanteisio.

Bydd yn:

- lleihau niwed dibyniaeth nicotin a sylweddau gwenwynig
- helpu i ddiogelu eu hiechyd meddwl a chorfforol
- lleihau'r effeithiau negyddol ar eu haddysg, a'u bywyd cymdeithasol
- amddiffyn yr amgylchedd
- yn gwneud Cymru'n lle gwell, glanach i fyw a'i mwynhau nawr ac yn y dyfodol.

**Bydd y gwaharddiad hwn yn cefnogi ac yn herio'r hawliau hyn.**

- **Erthygl 12:** Yr hawl i fynegi barn a chael eich clywed.
- **Erthygl 13:** Yr hawl i ryddid mynegiant.

Rydym ni'n parchu gwahanol safbwyntiau yr holl blant a phobl ifanc. Roedd llawer yn cytuno â'r gwaharddiad hwn. Ond roedd rhai yn anghytuno ac eisiau rhyddid i ddewis.

Roedd eraill yn gweld fêpio fel rhan o'u hunaniaeth a'u bywyd cymdeithasol. Fe wnaethom nhw ddweud bod y gwaharddiad hwn yn cyfyngu ar eu rhyddid mynegiant.

**I gael gwybod mwy** am y gwaharddiad ar fêps untro, ewch i: llyw.cymru/gwaharddiad-ar-feps-untro

# O hyn ymlaen

Byddwn yn sicrhau:

- bod plant a phobl ifanc yn cael gwybodaeth glir am fêpio
- bod ysgolion yn defnyddio'r cwricwlwm i addysgu am effaith ysmygu a fêpio ar iechyd a lles
- bod plant a phobl ifanc yn cael cymorth gan wasanaethau iechyd i roi'r gorau i ysmygu
- ein bod yn delio â'r wybodaeth gamarweiniol am fêpio
- bod gwasanaethau'n dysgu oddi wrth y naill a'r llall ac yn rhoi'r gefnogaeth orau i blant a phobl ifanc
- bod y gwaharddiad yn cael ei orfodi i atal gwerthiant anghyfreithlon fêps untro.

